# Llythyr agored i Lywodraeth Cymru - llyfrgelloedd teganau

**Cyflwyno rhwydwaith cenedlaethol o lyfrgelloedd teganau yng Nghymru**

Cychwynnwyd y llyfrgell deganau gyntaf yn Los Angeles yn 1935 mewn ymateb i'r Dirwasgiad Mawr, a chychwynnwyd y gyntaf yn y DU yn Llundain yn 1967. Yn anffodus, yma yng Nghymru, mae llyfrgelloedd teganau yn parhau i fod yn brin iawn.

Mae gan lyfrgelloedd teganau lu o fuddion. Gallant helpu teuluoedd i arbed arian; darparu teganau ac offer chwarae newydd a gwahanol i blant sy'n gymorth i ysgogi eu dychymyg a helpu eu datblygiad; helpu i leihau annibendod mewn cartrefi; bod yn hwb cymunedol sy'n rhoi cyfle arall i blant a theuluoedd ddod ynghyd yn eu cymunedau, lleihau'r nifer o deganau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, lleihau'r defnydd o blastig ac felly hefyd ar raddfa fechan yn helpu i leihau ychydig ar allyriadau'r hinsawdd.

Mae teganau hefyd yn fuddiol iawn wrth hyrwyddo symud trwy chwarae ymysg plant. Yn 2019, rhyddhaodd Sefydliad Iechyd y Byd ganllawiau yn nodi y dylai plant eistedd llai, a symud mwy. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn ymddygiad segur ymysg plant a'u gofalwyr, yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol, yn arbennig sgriniau. Nododd Sefydliad Iechyd y Byd fod chwarae yn un o'r prif fecanweithiau sy'n helpu plant i symud mwy, gan fod o fudd i'w hiechyd yn y tymor byr, canolig a hir.

Fodd bynnag, gwyddom nad oes gan bob plentyn yr un mynediad at deganau sy'n hyrwyddo symud a chwarae, yn enwedig plant o gefndiroedd incwm is. Byddai rhwydwaith cenedlaethol newydd o lyfrgelloedd teganau yng Nghymru yn gymorth i gefnogi hawl plentyn i chwarae (erthygl 31 o'r UNCRC), gan roi cyfleoedd cyfartal i bob plentyn i chwarae. Yn ychwanegol, byddai llyfrgelloedd teganau yn helpu gyda'r argyfwng costau byw ac yn gymorth i gyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru o economi gylchol yma yng Nghymru, wrth i ni symud i ddod wirioneddol yn genedl dim gwastraff. Byddai hyn yn hyrwyddo'r dull o ymdrin â hawliau plant, yn unol â'r erthyglau a nodir o fewn UNCRC.

**Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol yng Nghymru i gefnogi creu rhwydwaith cenedlaethol o lyfrgelloedd teganau.**

Bleddyn Lake, Rheolwr Ymgyrchoedd a Datblygu, Cyfeillion y Ddaear Cymru

Maia Banks, Perchennog a sylfaenydd, The Honeycomb Toy Library, Caerdydd

Leo Holmes, Swyddog Arweiniol Polisi ac Eiriolaeth, Blynyddoedd Cynnar Cymru

Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Claire Protheroe, Pennaeth Cytundebau a Phrosiectau, Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

James Walker, Perchennog a sylfaenydd, ToyBox Project, Caerffili

Penny Goodwin, Prif Swyddog Gweithredol, Wastesavers, Casnewydd

Un Llais Cymru, Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru